



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

### Nodiadau Cyfarfod

## Eithriadol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**5 Gorffennaf 2018**  
**9:00 am – 11:30 pm**  
**Optig, Llanelwy**

Presennol:	Y Cyngorydd Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Susie Lunt (ar ran Neil Ayling), Nicola Subbins, y Cyngorydd Joan Lowe, y Cyngorydd Llinos Medi Huws, Lyn Meadows, Sally Baxter (ar ran Teresa Owen), Dave Worrall, y Cyngorydd Christine Jones, Claire Lister (ar ran Jenny Williams), Vin West, Mario Kreft (ar ran Mary Wimbury), Richard Debicki, Audrey Somerton-Edwards (ar ran Clare Field/Charlotte Walton), Wendy Jones, Helen MacArthur, y Cyngorydd Bobby Feely, y Cyngorydd Liz Roberts, Lynda Colwell, Richard Weigh
Ymddiheuriadau	Morag Olsen, Andrew Long, Jenny Williams, Neil Ayling, Charlotte Walton, Clare Field, Mary Wimbury, Teresa Owen,
Hefyd Yn Bresennol:	Huw Irranca-Davies, Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol Chris Stevens, Llywodraeth Cymru Albert Heany, Llywodraeth Cymru

Eitem		Camau Gweithredu
1.	Croeso Croesawodd GR y Gweinidog a chyd-weithwyr eraill LIC i'r cyfarfod.	
2.	Rhoddwyd cyflwyniad holl gynhwysol gan ME, NS a RW ar y gwaith sy'n mynd ymlaen ar draws y rhanbarth i wella iechyd a lles trigolion ar draws Gogledd Cymru. Amlygwyd cyflawniadau'r Asesiad Poblogaeth, creu Cynllun Ardal, lansio gwefan, datblygu strategaeth gweithlu cynnydd gwaith o gyfuno cyllidebau a gweithio ar y cyd â DGCau.  Trafodwyd hefyd yr Adolygiad Seneddol â chydabyddiaeth gan Brif Swyddogion Gweithredol ac Arweinwyr Gogledd Cymru eu bod yn cydnabod bod gwaith y Bwrdd ar yr un lefel â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.	

2.

Y Gweinidog:

- cymeradwyodd y Bwrdd ar ei gyflawniadau wrth weithio ar y cyd, gan nodi gweledigaeth arbennig o uchelgeisiol, fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn ystyried mai dyma'r weledigaeth gywir ac amlygodd, o ganlyniad i heriau'r rhanbarth, ni ellir newid y rhaglen dros nos.
- rhoddodd sylw i deimlad integredig y datblygiadau a graddfa'r heriau a derbyniad o gwmpas y ddarpariaeth.
- nododd bod sawl model newydd o ofal di-dor wedi'u cefnogi yn barod gan y Gronfa Gofal Sylfaenol a'r Gronfa Gofal Integredig (GGI). Caiff cynlluniau pellach ar gyfer modelau newydd a ddarperir er mwyn gwella'r deiliant sy'n bwysig i bobl eu darparu drwy'r agenda trawsnewid. Bydd rhaid i bartneriaid ganolbwyntio ar beth sy'n gweithio'n dda gyda'r GGI, cyllid trawsnewid a chyllid craidd.
- nododd bod y Bwrdd Trawsnewid ar fin cael ei sefydlu. Bydd y gronfa Trawsnewid yn broses wahanol i'r cynigion arferol am gyllid CGI, ac mae'n cynnwys gweledigaeth i greu newidiadau system ar draws y rhanbarth. Rhaid i'r gronfa gael ei thargedu i brosiectau blaenoriaeth ac i fodolau newydd o ofal iechyd a chymdeithasol gyda'r nod o gyflymu eu datblygiad a dangos eu gwerth. Gall deilliannau trawsnewid hefyd fod yn fodolau enghreifftiol, â'r posibilrwydd o gael eu rhannu ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, yn benodol o gwmpas darparu canlyniadau.
- mae'n falch o weld datblygiad y Cyllidebau Cyfun ar gyfer Cartrefi Gofal, gyda rhanbarth yn symud i system rhannu heb risg. Mae LIC wedi cyhoeddi adolygiad annibynnol ar y Gyllideb Gyfun sy'n amlygu'r heriau ac yn gwireddu'r manteision ac yn annog aelodau'r bwrdd i'w darllen.
- cyhoeddodd bod LIC wedi cytuno i gynyddu cyllid Bwrdd Domisiynu Cenedlaethol (BCC) yn 2019-20 i hyrwyddo trefniadau comisiynu. Bydd BCC yn gweithio ochr yn ochr â Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn perthynas ag ymarferoldeb gweithredu'r cronfeydd cyfun.
- byddai'n croesawu'r cyfle i fynyachu cyfarfodydd bwrdd y dyfodol ynghyd â Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol, i wrando a thrafod ymhellach ag aelodau bwrdd oherwydd mae'n rhaid cydweithio er mwyn cyflawni deilliannau.

Cadarnhaodd y Gweinidog bod LIC yn bwriadu bwrw ymlaen ac wedi eu calonogi gan yr holl wybodaeth a roddwyd. Mae LIC yn awyddus i ddatblygu 'Oedi wrth Drowglwyddo Gofal' (DtoC) o fewn Gogledd Cymru, er eu bod yn cydnabod y gwaith da, mae anghysondeb o fewn y ffigyrau sy'n cael eu derbyn ac holwyd pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â chynllunio am y Gaeaf - a ydi'r system wedi darparu mwy o wytnwch, camau gweithredu wrth symud ymlaen, patrymau tebyg neu ddull gweithio gwahanol.

Gwnaethpwyd cyhoeddiad o £20B o arian Trawsnewid heb unrhyw gyfeiriad at Ofal Cymdeithasol. Gobeithir pan gaiff hwn ei gyhoeddi yng

	<p>Nghymru, y caiff Gofal Cymdeithasol ei gynnwys oherwydd byddai gan hyn ganlyniadau ar gyfer y broses integreiddio.</p> <p>Nid yw LIC wedi ymateb oherwydd bod yr agenda yng Nghymru yn wahanol a rhaid hidlo drwy'r cynllun tymor hir ar gyfer Gofal Iechyd a Chymdeithasol a gweithredu lles. Mae LIC yn bwriadu canolbwyntio ar y canlyniadau a gweithio drwy'r agenda.</p> <p>Cyfeiriodd VW at y termau 'delweddau' a 'diwylliant' a'r iaith yr ydym yn ei defnyddio am bobl sy'n ymwneud â'r ymagweddau sylfaenol a rhagfarnau a drwy ddefnyddio iaith Model Meddygol i gyfeirio at bobl anabl rydym yn parhau i ddefnyddio agweddau gwahaniaethol.</p> <p>Cadarnhaodd y Gweinidog bod LIC : Yn ymrwmo i ddull model cymdeithasol a chyfeiriodd at y 'Rhaglen Gwella Bywydau' diweddar a gafodd ei chyd-gynhyrchu â phobl anabl a Gofalwyr. Caiff grŵp Gweinidogol ei sefydlu yn seiliedig ar adborth gan bobl sydd wedi profi hyn eu hunain.</p> <p>Yn dilyn hynny, rhoddwyd cyfle i aelodau bwrdd adolygu a thrafod y pwyntiau uchod.</p>	
3.	<p><b><u>Cynllun dementia ICF – Canllaw LIC</u></b></p> <p>Caiff y Cynllun Dementia ICF ei drafod yn fanwl yn y cyfarfod bwrdd nesaf. Cadarnhaodd LIC y caiff 50% o'r cronfeydd eu rhyddhau i ddechrau a chaiff y gweddill ei ryddhau pan fydd LIG wedi cymeradwyo cynlluniau gwariant pob rhanbarth, â chyfleoedd posibl eraill i gael cyllid ychwanegol.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd JL ei bod yn pryderu am lywodraethu'r cymeradwyaeth ICF gan aelodau arweiniol. Cadarnhaodd BJE bod y cynlluniau o fewn cyllid ICF sydd wedi'i gymeradwyo yn barod.</p>	
4.	<p><b><u>UFA</u></b></p> <p>Cynigodd y Cynghorydd BF bod BIPBC angen cadarnhau pwy yw aelodau eu Bwrdd.</p> <p>Cadarnhaodd SB bod aelodaeth BIP ar y bwrdd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a chaiff ei adolygu fel rhan o drafodaethau strwythur a phersonél presennol.</p> <p>Ymholodd DW am y broses Datgan Diddordeb ar gyfer cynrychiolwyr trydydd sector ac eraill sy'n gorffen eu tymor ym mis Hydref 2018. Cadarnhaodd BJE y caiff Datganiadau Diddordeb ar gyfer cynrychiolwyr Trydydd Sector eu cylchredeg yn fuan ac mae croeso i aelodau presennol ail-ymgeisio.</p>	
	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b> Dydd Gwener, 13 Gorffennaf 9:00 am</p>	